



**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

---

**OFFERYNNAU STATUDOL**

---

---

**STATUTORY INSTRUMENTS**

---

**2004 Rhif 317 (Cy.34)**

**2004 No. 317 (W.34)**

**HAWLIAU TRAMWY, CYMRU**

**RIGHTS OF WAY, WALES**

**Rheoliadau Codi Rhwystrau oddi  
ar Briffyrdd (Cymru)  
2004**

**The Removal of Obstructions from  
Highways (Wales) Regulations  
2004**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi, mewn perthynas â Chymru, ffurf yr hysbysiadau sydd i'w cyflwyno o dan adrannau 130A, 130B a 130C o Ddeddf Priffyrdd 1980 ("y Ddeddf"). Mewnosodwyd yr adrannau hyn yn y Ddeddf gan adran 63 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

These Regulations prescribe, in relation to Wales, the form of notices to be served under sections 130A, 130B and 130C of the Highways Act 1980 ("the Act"). These sections were inserted into the Act by section 63 of the Countryside and Rights of Way Act 2000.

Mae'r darpariaethau newydd yn galluogi person, sy'n credu bod awdurdod priffyrdd lleol yn methu â chyflawni ei ddyletswydd i atal hawl dramwy rhag cael ei rhwystro, i ofyn i'r awdurdod sicrhau bod y rhwystr yn cael ei godi.

The new provisions enable a person, who believes a local highway authority is failing in its duty to prevent a right of way from being obstructed, to ask the authority to secure the removal of the obstruction.

Mae'n ofynnol cyflwyno hysbysiadau ar y ffurf a ragnodir gan y Rheoliadau hyn (neu ar ffurf y mae ei heffaith yn sylweddol debyg iddi) pan gaiff y darpariaethau newydd eu harfer.

Notices in the form (or in a form substantially to the same effect) prescribed by these Regulations are required to be served when the new provisions are exercised.

**2004 Rhif 317 (Cy.34)****2004 No. 317 (W.34)****HAWLIAU TRAMWY, CYMRU****RIGHTS OF WAY, WALES****Rheoliadau Codi Rhwystrau oddi  
ar Briffyrdd (Cymru)  
2004****The Removal of Obstructions from  
Highways (Wales) Regulations  
2004***Wedi'u gwneud* 10 Chwefror 2004*Made* 10th February 2004*Yn dod i rym* 1 Ebrill 2004*Coming into force* 1st April 2004

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 130A(8), 130B(6) a 130C(2) o Ddeddf Priffyrdd 1980(a), a phob pŵer arall sy'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol(b):

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by sections 130A(8), 130B(6) and 130C(2) of the Highways Act 1980(a), and of all other powers enabling it in that behalf, hereby makes the following Regulations(b):

**Enwi, cychwyn a chymhwyso****Citation, commencement and application**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Codi Rhwystrau oddi ar Briffyrdd (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2004.

1.-(1) These Regulations may be cited as the Removal of Obstructions from Highways (Wales) Regulations 2004 and come into force on 1st April 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

(2) These Regulations apply to Wales.

**Dehongli****Interpretation****2. Yn y Rheoliadau hyn -****2. In these Regulations -**

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Priffyrdd 1980 ac mae cyfeiriad at "adran" yn gyfeiriad at yr adran honno o'r Ddeddf;

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Highways Act 1980 and reference to a "section" is a reference to that section in the Act;

ystyr "hysbysiad" ("*notice*") yw hysbysiad ar ffurf a ragnodir gan y Rheoliadau hyn (neu ar ffurf y mae ei heffaith yn sylweddol debyg iddi) ac mae cyfeiriad at ffurflen â rhif yn gyfeiriad at ffurflen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

"notice" ("*hysbysiad*") means a notice in a form prescribed by these Regulations (or a form substantially to the same effect) and reference to a numbered form is a reference to a form bearing that number in the Schedule to these Regulations.

(a) 1980 p.66. Mewnosodwyd yr adrannau hyn yn y Ddeddf gan adran 63 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p.37).

(b) Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672) ac adran 99(1) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

(a) 1980 c.66. These sections were inserted into the Act by section 63 of the Countryside and Rights of Way Act 2000 (c.37).

(b) The functions of the Secretary of State under these sections are exercisable by the National Assembly for Wales by virtue of article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and section 99(1) of the Countryside and Rights of Way Act 2000.

### Hysbysiadau a ragnodir

3. Yr hysbysiad a ragnodir at ddibenion adran-
- (a) 130A(1) yw Ffurflen 1;
  - (b) 130A(6)(a) yw Ffurflen 2;
  - (c) 130A(6)(b) yw Ffurflen 3;
  - (ch) 130C(1) yw Ffurflen 4; a
  - (d) 130B(6) yw Ffurflen 5.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a)

10 Chwefror 2004

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

### Prescribed notices

3. The notice prescribed for the purposes of section-
- (a) 130A(1) is Form 1;
  - (b) 130A(6)(a) is Form 2;
  - (c) 130A(6)(b) is Form 3;
  - (d) 130C(1) is Form 4; and
  - (e) 130B(6) is Form 5.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a)

10th February 2004

The Presiding Officer of the National Assembly

---

(a) 1998 p.38.

---

(a) 1998 c.38.

# YR ATODLEN

## FFURFLEN 1

*Darllenwch y nodiadau drosodd cyn llenwi'r ffurflen hon*

### HYSBYSIAD O GAIS I'R AWDURDOD PRIFFYRDD LLEOL SICRHAU BOD RHWYSTR HONEDIG YN CAEL EI GODI

#### DEDDF PRIFFYRDD 1980 ADRAN 130A(1)

**I** [enw'r Awdurdod]  
**o** [cyfeiriad]

**Yr wyf i** [enw]  
**o** [cyfeiriad]  
[cyfeiriad e-bost (dewisol)]  
[rhif ffôn (dewisol)]

**drwy hyn yn gofyn i chi sicrhau bod y rhwystr a ddisgrifir isod yn cael ei godi.**

**Statws y briffordd** [ysgrifennwch "Llwybr Troed", "Llwybr Ceffylau", "Cilffordd Gyfyngedig", "Cilffordd sy'n Agored i bob math o Draffig" neu "Ddim yn sicr."]

**Lleoliad y briffordd a'r rhwystr:**

**Disgrifiad o'r rhwystr:**

**Y dyddiad y deuthum ar draws y rhwystr oedd** [*rhowch ddyddiad*]:

**Mae'n ymddangos i mi y gall y canlynol fod yn gyfrifol am y rhwystr** [*os nad yw'n hysbys, ysgrifennwch anhysbys*]:

**Enw 1:**

**Cyfeiriad 1:**

**Enw 2:**

**Cyfeiriad 2:**

Llofnodwyd

Dyddiad

---

## NODIADAU AR FFURFLEN 1

*Beth yw diben y ffurflen hon?*

Mae'r ffurflen hon yn rhoi hysbysiad o'ch cais i awdurdod priffyrdd lleol ("yr Awdurdod") gymryd camau i arfer ei ddyletswydd i atal rhwystrau i hawliau tramwy cyhoeddus. Dim ond mathau penodol o rwystrau sy'n dod o fewn cwmpas adran 130A - mae'r rhain yn cael eu disgrifio isod. Serch hynny, os ydych yn ansicr a yw rhwystr yn dod o fewn cwmpas adran 130A, cewch gyflwyno'r ffurflen hon a bydd yr Awdurdod yn eich hysbysu a yw o fewn eu pwerau i ymdrin ag ef.

Pan fyddwch wedi llenwi'r ffurflen, rhaid i chi ei chyflwyno i'r Awdurdod y mae'r rhwystr yn ei ardal. Mae cyflwyno hysbysiad yn golygu traddodi'r ffurflen hon i Brif Weithredwr yr Awdurdod. Cewch ei gyflwyno'n bersonol, ei adael yn swyddfa'r Awdurdod neu ei bostio gan ddefnyddio neu beidio â defnyddio'r gwasanaeth post cofrestredig neu'r gwasanaeth dosbarthiad cofnodedig. Os postiwch ef heb ei gofrestru neu heb gofnodi'r ffaith ei fod wedi'i bostio, bernir nad yw wedi'i gyflwyno os gall yr Awdurdod ddangos na ddaeth i law'r person yr oedd wedi'i gyfeirio ato.

Dylech gadw copi o bob ffurflen y byddwch yn ei chyflwyno i'r Awdurdod.

Gan y gall gwahanol weithdrefnau fod yn gymwys i wahanol rwystrau, defnyddiwch un ffurflen ar gyfer pob rhwystr.

*Beth yw rhwystr?*

Mae rhwystr yn dod o fewn cwmpas adran 130A os yw ar lwybr troed, llwybr ceffyl neu gilffordd cyfyngedig neu ffordd a ddangosir ar fap a datganiad diffiniol fel cilffordd cyfyngedig neu gilffordd sy'n agored i bob math o draffig, os yw'r rhwystr heb gael ei awdurdodi'n gyfreithlon ac os yw'n unrhyw beiriant, pwmp, postyn neu rywbeth arall y mae ei natur yn golygu y gall achosi niwsans, neu yn wrych, coeden neu brysgwydden neu lystyfiant o unrhyw ddisgrifiad arall sy'n hongian uwchben man lle mae hawl dramwy yn y fath fodd ag i beryglu cerbydau, cerddwyr a marchogwyr neu eu rhwystro rhag tramwyo.

Os yw'r rhwystr o fewn cwmpas Adran 130A, rhaid i'r Awdurdod y cyflwynwch hysbysiad iddo, o fewn un mis ar ôl dyddiad ei gyflwyno, gyflwyno i bob person y mae ei enw a'i gyfeiriad wedi'u cynnwys ar y ffurflen hon ac, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, i bob person arall y mae'n ymddangos iddo y gallai fod yn gyfrifol am y rhwystr, hysbysiad yn rhoi gwybod iddynt fod yr hysbysiad hwn wedi'i gyflwyno ynglŷn â'r rhwystr ac yn datgan pa gamau, os o gwbl, y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu cymryd. Mae'ch manylion personol yn gyfrinachol ac ni fydd yr Awdurdod yn datgelu pwy ydych chi i unrhyw bartïon eraill sydd â rhan yn y broses.

Os nad yw'r rhwystr o fewn cwmpas adran 130A bydd yr Awdurdod yn eich hysbysu o hynny.

*Llenwi'r ffurflen*

*Lleoliad y briffordd a'r rhwystr:* Dylai'ch disgrifiad o leoliad y briffordd ac o'r rhwystr fod yn ddigon manwl i'r Awdurdod allu dod o hyd iddynt.

*Disgrifiad o'r rhwystr:* Gallai esiamplau gynnwys peiriant amaethyddol; ysbwriel wedi'i adael ar y ffordd; canghennau sy'n hongian uwchben y ffordd yn y fath fodd ag i'ch rhwystro rhag tramwyo. Cewch atodi ffotograff os dymunwch. Os yw'r rhwystr yn berygl i ddefnyddwyr, bydd angen i'r Awdurdod ystyried a oes ganddo'r pŵer i'w godi heb gyflwyno hysbysiadau o dan adran 130A.

*Pwy sy'n gyfrifol am y rhwystr?* Os ydych yn adnabod, neu'n meddwl eich bod yn adnabod, yr unigolion a/neu y cwmnïau a all fod yn gyfrifol naill ai am greu'r rhwystr neu am fetu ag atal i'r rhwystr gael ei greu, ysgrifennwch eu henwau a'u cyfeiriadau.

**SCHEDULE**

**FORM 1**

*Please read the notes overleaf before you complete this form*

**NOTICE OF REQUEST TO LOCAL HIGHWAY AUTHORITY TO SECURE THE  
REMOVAL OF AN ALLEGED OBSTRUCTION**

**HIGHWAYS ACT 1980 SECTION 130A(1)**

**To** [name of Authority]  
**of** [address]

**I** [name]  
**of** [address]  
[e.mail address (optional)]  
[telephone (optional)]

**hereby request that you secure the removal of the obstruction described below.**

**Status of the highway** [write "Footpath", "Bridleway", "Restricted Byway", "Byway Open to All Traffic", or "Not sure"]

**Location of the highway and of the obstruction:**

**Description of the obstruction:**

**The date I encountered the obstruction was** [*enter date*]:

**It appears to me that the following may be responsible for the obstruction** (*if unknown, write "unknown"*):

**Name 1:**

**Address 1:**

**Name 2:**

**Address 2:**

Signed

Date

---

## NOTES TO FORM 1

### *What is the purpose of this form?*

This form gives notice of your request to a local highway authority ("the Authority") to take action to exercise its duty to prevent obstructions of public rights of way. Only certain types of obstructions fall within the scope of section 130A - these are described below. However, if you are unsure as to whether an obstruction falls within the scope of section 130A, you may submit this form and the Authority will inform you if it is within their powers to deal with it.

When you have completed the form, you must serve it on the Authority in whose area the obstruction lies. Serving notice means delivering this form to the Chief Executive of the Authority. You can deliver it in person, leave it at the Authority's office or post it with or without the registered or recorded delivery service. If you post it without registering or recording the fact of posting, it will be deemed not to have been served if the Authority can show that the person to whom it was addressed did not receive it.

You should keep a copy of all forms you submit to the Authority.

As different procedures may apply to different obstructions, use one form for each obstruction.

### *What constitutes an obstruction?*

An obstruction falls within the scope of section 130A if it is on a footpath, bridleway or restricted byway or a highway shown in a definitive map and statement as a restricted byway or a byway open to all traffic, if it is without lawful authority and it consists of any machine, pump, post or other object of such a nature as to be capable of causing a nuisance or a hedge, tree or shrub or vegetation of any other description that overhangs a right of way so as to endanger or obstruct the passage of vehicles, pedestrians and horse-riders.

If the obstruction is within the scope of section 130A, the Authority on whom you serve notice must, within one month from the date of service, serve on every person whose name and address is included on this form and, so far as reasonably practicable, on every other person who it appears to them may be for the time being responsible for the obstruction, notice informing them that this notice has been served in relation to the obstruction and stating what, if any, action the Authority proposes to take. Your personal details are confidential and the Authority will not reveal your identity to any other parties involved in the process.

If the obstruction is not within the scope of section 130A, the Authority will inform you.

### *Completing the form*

*Location of the highway and of the obstruction:* Your description of the location of the highway and of the obstruction should be detailed enough for the Authority to be able to locate them.

*Description of the obstruction:* Examples might include agricultural machinery; rubbish deposited on the highway; branches hanging over the highway so as to obstruct your passage. You may attach a photograph if you wish. If the obstruction is a danger to users, the Authority will need to consider whether it has the power to remove it without the service of notices under section 130A.

*Who is responsible for the obstruction :* If you know, or think you know, the individuals and/or companies who may be responsible for either creating, or for failing to prevent the formation of, the obstruction, write their names and addresses.

## FFURFLEN 2

*I'w llenwi gan yr awdurdod priffyrdd lleol*

### **HYSBYSIAD BOD YR AWDURDOD PRIFFYRDD LLEOL WEDI CAEL CAIS I SICRHAU BOD RHWYSTR YN CAEL EI GODI**

#### **DEDDF PRIFFYRDD 1980 ADRAN 130A(6)(a)**

[Enw'r Awdurdod]

At:

Mae hysbysiad wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod hwn sicrhau bod rhwystr yn cael ei godi o fan lle mae hawl tramwy cyhoeddus. Yr ydym wedi bodloni ein hunain fod y rhwystr o fewn cwrpas adran 130A(2) a (3) o Ddeddf Priffyrdd 1980.

**Statws a lleoliad y briffordd:**

**Lleoliad y rhwystr (gan gynnwys cyfeirnod y briffordd, os yw'n hysbys):**

**Disgrifiad o'r rhwystr:**

**Rydych wedi eich enwi fel person:**

- a all fod yn gyfrifol am y rhwystr; neu
- sy'n berchen ar ran neu'r cyfan o'r rhwystr; neu
- y mae'r rhwystr am y tro yn ei feddiant neu o dan ei reolaeth; neu
- y gall fod yn ofynnol iddo godi'r rhwystr.

**Mae'r Awdurdod yn bwriadu** [disgrifiwch pa gamau, os o gwbl, y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu cymryd mewn perthynas â'r rhwystr honedig]:

Os chi sy'n gyfrifol am y rhwystr, ysgrifennwch at yr Awdurdod i gadarnhau bod y rhwystr wedi'i godi, neu y bydd yn cael ei godi a'r dyddiad y bwriedir ei godi. Os ydych yn credu nad ydych chi yn berson o fath a bennwyd uchod neu os ydych yn credu nad yw'r rhwystr yn un y mae'r ddeddfwriaeth hon yn gymwys iddo, ysgrifennwch at yr Awdurdod gan ddatgan eich rhesymau.

Llofnodwyd

Dyddiad



---

## NODIADAU AR FFURFLEN 2

*Beth yw diben y ffurflen hon?*

Mae adran 130A(1) o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn galluogi unrhyw berson i gyflwyno hysbysiad i awdurdod priffyrdd lleol ("yr Awdurdod") yn gofyn bod rhwystr, sydd ar fan lle mae hawl dramwy, yn cael ei godi. Os yw'r rhwystr o fewn cwmpas adran 130A(2) a (3) o Ddeddf Priffyrdd 1980, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymryd camau i sicrhau bod y rhwystr yn cael ei godi.

Mae rhwystr yn dod o fewn cwmpas adran 130A(2) a (3) os yw ar lwybr troed, llwybr ceffyl neu gilffordd gyfyngedig neu ffordd a ddangosir ar fap a datganiad diffiniol fel cilffordd gyfyngedig neu gilffordd sy'n agored i bob math o draffig, os yw'r rhwystr heb gael ei awdurdodi'n gyfreithlon ac os yw'n unrhyw beiriant, pwmp, postyn neu rywbeth arall y mae ei natur yn golygu y gall achosi niwsans, neu'n wrych, coeden neu brysgwydden neu lystyfiant o unrhyw ddisgrifiad arall sy'n hongian uwchben man lle mae hawl dramwy yn y fath fodd ag i beryglu cerbydau, cerddwyr a marchogwyr neu eu rhwystro rhag tramwyo.

Mae'r ffurflen hon yn hysbysu'r rhai y canfuwyd mai hwy sy'n gyfrifol am rwystr fod hysbysiad wedi'i roi i'r Awdurdod arfer ei ddyletswydd i godi'r rhwystr ac yn eu hysbysu o'r camau y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu cymryd i sicrhau ei fod yn cael ei godi.

Rhaid cyflwyno hysbysiad o fewn un mis o ddyddiad cyflwyno Ffurflen 1.

## FORM 2

*To be completed by the local highway authority*

### **NOTICE THAT THE LOCAL HIGHWAY AUTHORITY HAS RECEIVED A REQUEST TO SECURE THE REMOVAL OF AN OBSTRUCTION**

#### **HIGHWAYS ACT 1980 SECTION 130A(6)(a)**

[Name of Authority]

To:

Notice has been served on this Authority to secure the removal of an obstruction from a public right of way. We are satisfied that the obstruction is within the scope of section 130A(2) and (3) of the Highways Act 1980.

**Status and location of the highway:**

**Location of the obstruction** (including path reference number, if known):

**Description of the obstruction:**

**You have been named as a person who:**

- may be responsible for the obstruction; or
- is the owner of part, or all, of the obstruction; or
- for the time being has possession or control of the obstruction; or
- may be required to remove the obstruction.

**The Authority proposes to** [describe what action, if any, the Authority proposes to take in relation to the alleged obstruction]

If you are responsible for the obstruction, you should write to the Authority to confirm that the obstruction has been, or will be, removed and the proposed date of removal. If you think you are not a person of a type specified above or if you think the obstruction is not one to which this legislation applies, you should write to the Authority stating your reasons.

Signed

Date

---

## NOTES TO FORM 2

### *What is the purpose of this form?*

Section 130A(1) of the Highways Act 1980 enables any person to serve notice on a local highway authority ("the Authority") requesting removal of an obstruction on a right of way. If the obstruction is within the scope of section 130A(2) and (3) of the Highways Act 1980, the Authority is required take action to secure the removal of the obstruction.

An obstruction falls within the scope of section 130A(2) and (3) if it is on a footpath, bridleway or restricted byway or a highway shown in a definitive map and statement as a restricted byway or a byway open to all traffic, if it is without lawful authority and it consists of any machine, pump, post or other object of such a nature as to be capable of causing a nuisance or a hedge, tree or shrub or vegetation of any other description that overhangs a right of way so as to endanger or obstruct the passage of vehicles, pedestrians and horse-riders.

This form gives notice to those who have been identified as being responsible for an obstruction that notice has been given to the Authority to exercise its duty to remove the obstruction and the action that the Authority proposes to take to secure its removal.

Notice must be served within one month from the date of service of Form 1.

### **FFURFLEN 3**

*I'w llenwi gan yr awdurdod priffyrdd lleol*

**HYSBYSIAD I BERSON, A GYFLWYNODD HYSBYSIAD I'R AWDURDOD PRIFFYRDD LLEOL YN GOFYN BOD RHWYSTR YN CAEL EI GODI (FFURFLEN 1), FOD YR AWDURDOD PRIFFYRDD LLEOL WEDI CYFLWYNO HYSBYSIAD I'R PERSON(AU) Y CANFUWYD EU BOD YN GYFRIFOL**

#### **DEDDF PRIFFYRDD 1980 ADRAN 130A(6)(b)**

[Enw'r Awdurdod]

**At:**

**Cyfeiriad:**

**Mae hysbysiad wedi'i gyflwyno i'r personau yr ydych wedi eu henwi yn y ffurflen a gyflwynwyd gennych i'r Awdurdod ar [dyddiad yr hysbysiad o gais] fel personau sy'n gyfrifol, yn eich barn chi, am rwystr.**

**Rhoddwyd hysbysiad gan yr Awdurdod i'r personau hynny drwy ddefnyddio'r copi o Ffurflen 2 sydd wedi ei atodi.**

Llofnodwyd

Dyddiad

Enw'r Swyddog

**FORM 3**

*To be completed by the local highway authority*

**NOTICE TO PERSON WHO SERVED NOTICE ON THE LOCAL HIGHWAY AUTHORITY  
REQUESTING THE REMOVAL OF AN OBSTRUCTION (FORM 1) THAT THE LOCAL HIGHWAY  
AUTHORITY HAS SERVED NOTICE ON THE PERSON(S) IDENTIFIED AS BEING RESPONSIBLE**

**HIGHWAYS ACT 1980 SECTION 130A(6)(b)**

[Name of Authority]

**To:**

**Address:**

**Notice has been served on the persons named by you as persons you believed to be responsible for an obstruction in the form you submitted to the Authority on [date of the request notice].**

**Notice was given by the Authority to those persons by means of the attached copy of Form 2.**

Signed

Date

Name of Officer

## FFURFLEN 4

*I'w llenwi gan y person a lanwodd Ffurflen 1*

### **HYSBYSIAD O FWRIAD I WNEUD CAIS I'R LLYS YNADON AM ORCHYMYN YN EI GWNEUD YN OFYNNOL I'R AWDURDOD PRIFFYRDD LLEOL SICRHAU BOD RHWYSTR YN CAEL EI GODI**

#### **DEDDF PRIFFYRDD 1980 ADRAN 130C(1)**

**I** [enw'r Awdurdod]  
**o** [cyfeiriad]

**Fe wnes i** [enw]  
**o** [cyfeiriad]  
[cyfeiriad e-bost (dewisol)]  
[rhif ffôn (dewisol)]

**gyflwyno hysbysiad (Ffurflen 1) i chi ar [dyddiad] i sicrhau bod rhwystr yn cael ei godi. Mae lleoliad y rhwystr wedi'i ddisgrifio yn fy hysbysiad (Ffurflen 1). [Mae copi o Ffurflen 1 wedi'i atodi] [Mae'r disgrifiadau sydd wedi'u cynnwys yn Ffurflen 1 isod].**

**Gan nad yw'r rhwystr wedi'i godi, yr wyf yn bwriadu gwneud cais i Lys yr Ynadon am Orchymyn i'w gwneud yn ofynnol i chi godi'r rhwystr.**

Llofnodwyd

Dyddiad

---

#### **NODIADAU AR FFURFLEN 4**

*Amserlen:* Ni chewch gyflwyno hysbysiad o'ch bwriad i wneud cais i Lys yr Ynadon am Orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod priffyrdd lleol ("yr Awdurdod") sicrhau bod rhwystr yn cael ei godi tan o leiaf ddeufis ar ôl y dyddiad pan wnaethoch chi gyflwyno hysbysiad (Ffurflen 1) i'r Awdurdod.

Cewch wneud cais i Lys yr Ynadon bum niwrnod ar ôl i chi gyflwyno'r hysbysiad hwn i'r Awdurdod, ond rhaid i unrhyw gais gael ei wneud o fewn chwe mis o roi Ffurflen 1 i'r Awdurdod.

*Pa Lys Ynadon?*

Rhaid i chi wneud cais i Lys yr Ynadon y mae'r rhwystr i'w gael yn eu hawdurdodaeth hwy.

FORM 4

*To be completed by the person who completed Form 1*

**NOTICE OF INTENTION TO APPLY TO THE MAGISTRATES' COURT FOR AN ORDER  
REQUIRING THE LOCAL HIGHWAY AUTHORITY TO SECURE THE REMOVAL OF AN  
OBSTRUCTION**

**HIGHWAYS ACT 1980 SECTION 130C(1)**

**To** [name of Authority]  
**of** [address]

**I** [name]  
**of** [address]  
[e.mail address (optional)]  
[telephone (optional)]

**served notice (Form 1) on you on [date] to secure the removal of an obstruction. The location of the obstruction is described in my notice (Form 1). [A copy of Form 1 is attached] [The descriptions contained in Form 1 are below].**

**As the obstruction has not been removed, I intend to apply to the Magistrates' Court for an Order requiring you to secure the removal of the obstruction.**

Signed \_\_\_\_\_ Date \_\_\_\_\_

-----  
**NOTES TO FORM 4**

*Timetable:* You cannot serve notice of your intention to apply to the Magistrates' Court for an Order requiring the local highway authority ("the Authority") to secure the removal of an obstruction until at least two months after the date on which you served notice (Form 1) on the Authority.

You can apply to the Magistrates' Court 5 days after you serve this notice on the Authority, but you must apply within 6 months of giving Form 1 to the Authority.

*Which Magistrates' Court?*

You must apply to the Magistrates' Court in whose jurisdiction the obstruction is to be found.

## FFURFLEN 5

*I'w llenwi gan yr awdurdod priffyrdd lleol*

### **HYSBYSIAD O ORCHYMYN A WNAED GAN LYS YNADON YN EI GWNEUD YN OFYNNOL I'R AWDURDOD PRIFFYRDD LLEOL SICRHAU BOD RHWYSTR YN CAEL EI GODI**

#### **DEDDF PRIFFYRDD 1980 ADRAN 130B(6)**

[Enw'r Awdurdod]

**Hysbysir drwy hyn fod Gorchymyn wedi'i wneud gan Lys yr Ynadon yn [lleoliad Llys yr Ynadon] ar [dyddiad] yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod hwn gymryd y camau canlynol [mewnosodwch y camau a'r cyfnod amser a bennir yn y Gorchymyn] i sicrhau bod y rhwystr a ddisgrifir isod yn cael ei godi.**

**Statws y briffordd:**

**Lleoliad y briffordd** [gan gynnwys cyfeirnod y briffordd, os yw'n hysbys]:

**Lleoliad y rhwystr:**

**Disgrifiad o'r rhwystr:**

**Mae copïau o'r hysbysiad hwn wedi'u gosod o boptu i'r rhwystr ac yn y pwynt cyntaf, o boptu i'r rhwystr, lle mae'r briffordd (neu briffordd gysylltu) yn ymuno â phriffordd sydd wedi'i metlio. [Nodwch hefyd unrhyw bwyntiau eraill lle mae'r hysbysiad wedi'i osod.] Mae copïau wedi'u hanfon hefyd i'r rhai y canfuwyd bod ganddynt fuddiant, neu sydd wedi nodi bod ganddynt fuddiant, yn y Gorchymyn. Bydd yr hysbysiaidau hyn yn cael eu harddangos tan [dyddiad].**

**Daw'r Gorchymyn hwn yn effeithiol ar yr ail ddiwrnod ar hugain o'r diwrnod y cafodd y Gorchymyn ei wneud.**

Llofnodwyd

Dyddiad

#### **Yr hawl i apelio yn erbyn y Gorchymyn hwn**

Caiiff yr awdurdod priffyrdd lleol ac unrhyw berson sydd am y tro yn gyfrifol am y rhwystr, neu a fu'n gyfrifol pan gafodd y cais am y Gorchymyn ei wneud i Lys yr Ynadon, apelio i Lys y Goron ar y sail bod y ffordd neu'r rhwystr o fath sydd y tu allan i gwmpas y ddeddfwriaeth neu ar y sail nad yw'r rhwystr yn amharu'n sylweddol ar arfer hawliau cyhoeddus dros y ffordd honno.

Yn ddarostyngedig i bŵer Llys y Goron i estyn y cyfnod ar gyfer apelio, rhaid rhoi hysbysiad o apêl i Lys y Goron o fewn 21 diwrnod ar ôl y dyddiad pan gafodd Gorchymyn Llys yr Ynadon ei wneud.



FORM 5

*To be completed by the local highway authority*

**NOTICE OF AN ORDER MADE BY MAGISTRATES' COURT REQUIRING THE LOCAL HIGHWAY  
AUTHORITY TO SECURE THE REMOVAL OF AN OBSTRUCTION**

**HIGHWAYS ACT 1980 SECTION 130B(6)**

[Name of Authority]

**Notice is hereby given that an Order has been made by the Magistrates' Court at [location of Magistrates' Court] on [date] requiring this Authority to take the following steps [insert the steps and timescale specified in the order] to secure the removal of the obstruction described below.**

**Status of the highway:**

**Location of the highway** (including path reference number, if known):

**Location of the obstruction:**

**Description of the obstruction:**

**Copies of this notice are being displayed on each side of the obstruction and at the first point, on each side of the obstruction, where the highway (or connecting highway) joins a metalled highway. [Also identify any other points where the notice is being displayed.]. Copies have also been sent to those who have been identified as having an interest, or who have indicated that they have an interest, in the order. These notices will be displayed until [date].**

**This Order takes effect on the 22nd day from the day on which the Order was made.**

Signed

Date

**Right of appeal against this Order**

The local highway authority and any person who is for the time being responsible for the obstruction, or was responsible when the application for the Order was made to the Magistrates' Court, may appeal to the Crown Court on the grounds that the highway or the obstruction is of a type which falls outside the legislation or that the obstruction does not significantly interfere with the exercise of public rights over that highway.

Subject to the Crown Court's power to extend the period for appeal, notice of an appeal to the Crown Court must be given within 21 days after the date on which the Magistrates' Court Order was made.





---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2004 Rhif 317 (Cy.34)**

**HAWLIAU TRAMWY, CYMRU**

Rheoliadau Codi Rhwystrau oddi  
ar Briffyrdd (Cymru)  
2004

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2004 No. 317 (W.34)**

**RIGHTS OF WAY, WALES**

The Removal of Obstructions from  
Highways (Wales) Regulations  
2004

© Hawlfraint y Goron 2004

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**£3.50**


W239/02/04

ON

© Crown copyright 2004

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090868-6



9 780110 908687